

Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector i Gymru: Cofnodion Cyfarfod

CGCC, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
Dydd Mercher 11 Hydref 2017 – 13:00-16:00

Yn bresennol		
Chloe	Jenkins	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Glyn	Jones	Llywodraeth Cymru
Sue	Leake	Llywodraeth Cymru
Calvin	Lees	Sefydliad Dysgu a Gwaith (NIACE yn flaenorol)
Fiona	Liddell	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Carys	Moseley	Cytûn
Anna	Nicholl	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Lucy	Prior	Llywodraeth Cymru
Julie	Skelton	Gyrfa Cymru
Neil	Townsend	Swyddfa Ystadegau Gwladol
Hade	Turkmen	Chwarae Teg
Lisa	Walters	Llywodraeth Cymru
Steffan	Wiliam	Cyfieithydd
Ymddiheuriadau		
Paul	Glaze	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol
Nick	Lewis	Umbrella Cymru
Catrin	James	Urdd Gobaith Cymru
John	Gossage	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Lucy	Williams	Sefydliad Bevan
Rhodri	Bowen	Uned Pobl a Gwaith
Gareth	Brand	Llywodraeth Cymru
Daniella	David	Race Council Cymru
Alex	Osmond	The Wallich
Esther	Sutherland	Swyddfa Ystadegau Gwladol
Rita	Singh	Maint Cymru

	Pwyntiau gweithredu
1 Croeso a Chyflwyniadau	Sue Leake
Agorodd SL y cyfarfod ac estynnodd groeso i'r aelodau. Nodwyd nad oedd nifer o'r rhai a oedd yn bresennol wedi argraffu'r papurau	Gweithredu: SL i sicrhau erbyn y cyfarfod nesaf y bydd cyfarwyddiadau ynghylch argraffu papurau a gwybodaeth ynghylch ble i lawrlwytho'r cofnodion yn cael eu nodi'n glir ac y bydd unrhyw gyflwyniadau hwyr yn cael eu hargraffu ac y byddant ar gael yn y cyfarfod. Gweithredu: SL i sicrhau bod 'Cofnodion a chymau gweithredu' yn cael ei ychwanegu i agendâu yn y dyfodol
2 Cofnodion a Chamau Gweithredu	Sue Leake
Trafodwyd a chytunwyd ar ffurf y cofnodion. Nododd yr aelodau ei bod yn cymryd ychydig amser i'r cyflwyniadau fod ar gael yn dilyn y cyfarfod blaenorol	Gweithredu: SL i sicrhau y bydd y cyflwyniadau ar gael cyn gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod
3 Papurau: Cylchlythyr Chwarterol ar Ystadegau, Demograffeg a'r Cyfrifiad	Sue Leake
Nodwyd y diweddariad chwarterol ar ystadegau a'r cylchlythyr demograffeg gyda sylwadau cyfyngedig	
4 Diweddariad Ystadegol: Adolygiad o'r chwe mis diwethaf a chynlluniau ar gyfer y chwe mis nesaf	Sue Leake/Glyn Jones
<p>Cafwyd cyflwyniad gan SL a oedd yn adolygu'r allbynnau a gyhoeddwyd yn ystod y chwe mis diwethaf a'r blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf, a nodwyd bod y wybodaeth yn rhai o'r sleidiau wedi dyddio rhyw ychydig erbyn hyn.</p> <p>Gofynnodd JS pa gyhoeddiadau a gyhoeddir cyn bo hir a pha rai a gyhoeddwyd yn barod. Dangosodd GJ sut i ddefnyddio'r wefan er mwyn cyrraedd tudalen i'w cyhoeddi cyn bo hir a dangosodd sut i gofrestru er mwyn cael y cylchlythyr bob pythefnos er mwyn cael gwybod am ddeunydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd modd cael hysbysiad yn unig o gyhoeddiadau a oedd yn ymwneud â mater penodol o ddiddordeb.</p> <p>Amlygwyd rhai materion penodol gan SL/GJ:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhai anawsterau cychwynnol a fu o ran ansawdd y data ynghylch digartrefedd ar ôl cyflwyno deddfwriaeth newydd, a thrafodaethau Llywodraeth Cymru (LIC) ynghylch y posibilrwydd o gasglu data ynghylch digartrefedd ar lefel aelwydydd unigol • y bydd LIC yn ymgynghori â defnyddwyr ynghylch yr allbynnau yr hoffent eu cael gan Arolwg Cyflwr Tai Cymru • Y diddordeb a ddangoswyd yn y wasg yn ddiweddar ynghylch yr anghyfartalwch ar draws pobl o wahanol hil a ddatgelwyd ar wefan newydd Ffeithiau a Ffigurau Ethnigrwydd y DU a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet o ganlyniad i 'archwiliad Anghyfartalwch Hil' Llywodraeth y DU. Cyfeiriodd SL y grŵp at yr adran yn adroddiad cydraddoldeb Llesiant Cymru am wybodaeth ynghylch ethnigrwydd 	

<p>yng Nghymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tîm Ystadegaeth Amaethyddiaeth wedi cyhoeddi ciwbiau StatsCymru ac maent yn awyddus i gael adborth ynghylch pa mor ddefnyddiol ydynt • Mae'r dadansoddiad dros dro o ganlyniadau arholiadau 2016/17 wedi cael ei gyhoeddi; o ganlyniad i'r newidiadau a wnaethpwyd o ran arholiadau, bu rhai achosion terfynu sydd wedi effeithio ar y cymariaethau gyda blynyddoedd blaenorol • Bydd data newydd a gafwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cyfateb cofnodion cyflogaeth, budd-daliadau ac enillion gyda data dysgwyr, yn cynnig cyfleoedd i ddadansoddi gwybodaeth am daith pobl ar ôl 16 oed • Ychwanegwyd mwy o ddata trafndiaeth i StatsCymru. Cyhoeddwyd data newydd ynghylch cyflymder cerbydau ar draffyrdd, sy'n dangos rhai gwahaniaethau diddorol yn ôl amseroedd yn ystod y dydd ac sy'n amlygu materion ynghylch twnelau Brynglas ac ati. • Amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynghylch siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar wahanol sefyllfaoedd er mwyn gweld yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni targed LIC o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 	<p>Gweithredu: Gofynnwyd i aelodau'r Panel fynegi unrhyw sylwadau sydd ganddynt am giwbiau newydd StatsCymru ynghylch Amaethyddiaeth</p>
<p>5 Cyfrifiad 2021 – Pynciau a Chwestiynau</p>	<p>Neil Townsend</p>
<p>Cafwyd cyflwyniad gan NT am Gyfrifiad 2021. Roedd y cyflwyniad yn ystyried canfyddiadau prawf Cyfrifiad 2017 ac yn cynnig diweddariad am y cwestiynau a gynigiwyd ac a ystyriwyd ar gyfer Cyfrifiad 2021. Ni chyhoeddir y cyflwyniad hwn gan bod ONS yn adolygu eu cynllun cyhoeddi ynghylch pynciau.</p> <p>Canfu prawf Cyfrifiad 2017 bod tua 80% o'r rhai a oedd yn ymateb wedi llenwi'r ffurflen ar-lein a bod nifer wedi defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau eraill i'w llenwi.</p> <p>Grŵp Ethnig: Mae ONS yn archwilio pa ddewisiadau ymateb ychwanegol (os o gwbl) y dylid eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021.</p> <p>Iaith: Mae ONS yn ystyried a ddylid argymhell holi ynghylch 'prif iaith' – gyda dewisiadau ymateb ar wahân ar gyfer 'Saesneg' a 'Chymraeg' – mae hyn yn cael ei drafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cymuned y Lluoedd Arfog: Mae ONS yn ystyried argymhell y dylid cynnwys cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021 sy'n gofyn a yw ymatebwyr wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn flaenorol.</p> <p>Hunaniaeth Rywiol: Roedd y prawf yn dangos nad oedd cynnwys cwestiwn am hunaniaeth rywiol wedi cael effaith niweidiol ar y cyfraddau ymateb (gostyngiad o 1%).</p> <p>Hunaniaeth o ran Rhywedd: Mae ONS wedi bod yn cynnal gwaith ymchwil er mwyn profi pa mor dderbyniol yw hyn i'r cyhoedd. Canfu gweithdy defnyddwyr data a gynhaliwyd ym mis Medi 2017 bod rhanddeiliaid yn dymuno cael cwestiwn sy'n cynnwys dau gam, sy'n holi am y rhyw ar enedigaeth rhywun ac yna, cwestiwn ynghylch hunaniaeth o ran rhywedd nawr. Dangoswyd y cwestiynau posibl i'r</p>	<p>Gweithredu: GJ i ddarparu manylion cyswllt i'r grŵp ynghylch sut i gysylltu ag NT er mwyn mynegi sylwadau am gwestiynau arfaethedig y Cyfrifiad</p>

<p>grŵp a gwnaethpwyd nifer o sylwadau am y geiriad.</p> <p>Gwirfoddoli: Dywedodd NT bod gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos nad oedd angen y defnyddiwr i gael cwestiynau am hwn mor gryf ag yr oedd ar gyfer pynciau newydd eraill.</p> <p>Mynegodd FL ei siom ynghylch y ffordd anghyson y gofynnwyd cwestiynau am wirfoddoli (e.e. ffurfiol/anffurfiol, 12 mis diwethaf/ar hyn o bryd) mewn arolygon amrywiol. Dywedodd GJ y byddai cysoni GSS a LIC yn ystyried hyn wrth baratoi cwestiynau ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol nesaf.</p> <p>Cyfeiriodd CJ at yr angen i gael cwestiwn am ynni adnewyddadwy yn hytrach na gwres canolog. Dywedodd SL bod y mater hwn wedi cael ei godi gyda Grŵp Pynciau'r Cyfrifiad ynghylch tai.</p>	<p>Gweithredu: LW i gysylltu â thîm cysoni GSS er mwyn cael gwybod y cyngor am gwestiynau gwirfoddoli wedi'u cysoni ac er mwyn mynegi pryder y grŵp ynghylch cwestiynau anghyson am y pwnc mewn arolygon amrywiol.</p> <p>Gweithredu: GJ i sicrhau yr ymgynghorir â CGCC wrth baratoi'r cwestiwn nesaf am wirfoddoli ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol</p>
<p>6 Arolwg Cenedlaethol Cymru</p>	<p>Lisa Walters</p>
<p>Cafwyd cyflwyniad gan LW am Arolwg Cenedlaethol Cymru. Esboniodd sut y cynhaliwyd yr arolwg, sut i ddarganfod pa gwestiynau sydd wedi cael eu cynnwys yn yr arolwg trwy ddefnyddio'r syllwr cwestiynau, a sut i droi at y canlyniadau trwy'r syllwr canlyniadau a rhoddodd grynodedb o'r prif ganddydiadau ar gyfer 2016-17. Nododd CJ pa mor ddefnyddiol yw'r ffeithluniau er mwyn eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Cyflwynwyd rhai canfyddiadau cychwynnol gan LW ynghylch gwirfoddolwyr a gofalywr, a soniodd y byddai ei chydweithiwr, LP, yn gwneud rhywfaint o waith dadansoddi manwl ynghylch hyn. Soniodd FL y gallai fod yn ddefnyddiol i LP ac LW fynychu cyfarfod Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru ym mis Tachwedd i hysbysu'r grŵp hwnnw o'r gwaith arfaethedig hwn er mwyn cael ychydig fewnbwn.</p>	<p>Gweithredu: FL i anfon adroddiad am wasanaethau gwirfoddoli at LW a gwahodd LW ac LP i gyfarfod Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru</p>
<p>7 Adroddiad Llesiant Cymru</p>	<p>Glyn Jones</p>
<p>Adroddodd GJ y cyhoeddwyd yr adroddiad Llesiant Cenedlaethol blynyddol cyntaf (Llesiant Cymru) ym mis Medi. Dangosodd GJ sut i ddod o hyd i'r adroddiad ac anogodd y grŵp i ddefnyddio tab 'gweld data', lle'r oedd gwybodaeth ychwanegol ynghylch pob dangosydd cenedlaethol. Dangosodd hefyd sut y mae modd clicio ar nodau a darganfod pa ddangosyddion sy'n gysylltiedig â phob nod llesiant a nodau Datblygu Cynaliadwy CU.</p> <p>Mae set o sleidiau ar gael hefyd trwy gyfrwng slideshare sy'n dangos crynodeb o rai o'r prif negeseuon.</p> <p>Anogodd GJ y grŵp i rannu'r adroddiad yn eang. Nododd y byddai'r adroddiad yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol, ond na fyddai'n cynnig y dadansoddiad llawn o ddata manwl. Byddai'n croesawu adborth am ei ddefnyddioldeb.</p>	<p>Gweithredu: Y grŵp i anfon e-bost at GJ sy'n cynnwys unrhyw adborth am adroddiad Llesiant Cymru</p>
<p>8 Tueddiadau'r dyfodol</p>	<p>Glyn Jones</p>
<p>Dangosodd GJ ble i ddod o hyd i adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gynlluniwyd i nodi tueddiadau allweddol y gallent effeithio ar Gymru yn y dyfodol.</p> <p>Roedd GJ yn cydnabod ei bod yn ddyddiau cynnar iawn i'r gwaith</p>	

hwn, ac amlygodd y ffaith bod modd gweld y wybodaeth dan dab 'gweld data' .	
9 Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol a dyddiad y cyfarfod nesaf	Sue Leake
<p>Cafwyd trafodaeth am gyfarfodydd yn y dyfodol a'r ffordd orau o sicrhau bod y panel yn ddefnyddiol i gyfranogwyr.</p> <p>Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gadarnhaol am y cam o sefydlu'r Panel ac roeddent yn cydnabod amrediad amrywiol buddiannau'r sawl sy'n mynychu. Cynigiwyd amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog mwy o ryngweithio yn y cyfarfodydd ac yn ystod y broses o osod yr agenda; ystyried eitemau agenda am bynciau thema. • Cadw diweddariadau gan LIC yn fyr ond gofyn am ddiweddariadau gan gyfranogwyr, a thrafod materion y maent wedi'u nodi wrth ddarganfod, defnyddio neu rannu data. • Gwahodd cyfranogwyr o'r trydydd sector i flaenoriaethu materion data y grŵp, gan ganiatáu trafodaeth ynghylch sut i gydlynu ymateb ar y cyd gan y trydydd sector i ONS neu gynigion ystadegol LIC • Ystyried defnyddio sesiynau gweminar at rai dibenion. <p>Yn ogystal, y tu allan i'r cyfarfodydd, byddai modd gofyn i KAS:</p> <ol style="list-style-type: none"> a) hwyluso ymweliad â'r Campws Gwyddor Data; a b) chyfranogi yn Gofod 3 ym mis Mawrth 2018 <p>Trefnir dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill 2018 (gan osgoi Gwyliau'r Pasg). Cytunodd y cyfranogwyr bod Tŷ Baltig CGGC yn lleoliad priodol.</p>	Gweithredu: SL/AN i ystyried yr adborth a roddwyd ynghylch cyfarfodydd yn y dyfodol, gan ymgysylltu ag aelodau'r panel cyn gosod yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf
9 Unrhyw Fater arall	Sue Leake
Soniodd FL bod ONS wedi cysylltu â hi ynghylch y rhaglen Gwirfoddoli Ystadegol, lle y gall dadansoddwyr ystadegol wirfoddoli i weithio mewn sefydliadau arall a'u helpu gyda'u hystadegau am gyfnod byr.	Gweithredu: FL i ddosbarthu'r wybodaeth ynghylch rhaglen Gwirfoddoli Ystadegol

Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector i Gymru

11 Hydref 2017

Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu

1	SL i sicrhau erbyn y cyfarfod nesaf y bydd cyfarwyddiadau ynghylch argraffu papurau a gwybodaeth ynghylch ble i lawrlwytho'r cofnodion yn cael eu nodi'n glir ac y bydd unrhyw gyflwyniadau hwyr yn cael eu hargraffu ac y byddant ar gael yn y cyfarfod	Sue Leake
2	SL i sicrhau bod 'Cofnodion a champau gweithredu' yn cael ei ychwanegu i agendâu yn y dyfodol	Sue Leake
3	SL i sicrhau y bydd y cyflwyniadau ar gael cyn gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod	Sue Leake
4	Gofynnwyd i aelodau'r Panel fynegi unrhyw sylwadau sydd ganddynt am giwbiau newydd StatsCymru ynghylch Amaethyddiaeth	Aelodau sydd â diddordeb mewn ystadegaeth amaethyddiaeth i fynegi sylwadau
5	GJ i ddarparu manylion cyswllt i'r grŵp ynghylch sut i gysylltu ag NT er mwyn mynegi sylwadau am gwestiynau arfaethedig y Cyfrifiad	Glyn Jones
6	LW i gysylltu â thîm cysoni GSS er mwyn cael gwybod y cyngor am gwestiynau gwirfoddoli wedi'u cysoni ac er mwyn mynegi pryder y grŵp ynghylch cwestiynau anghyson am y pwnc mewn arolygon amrywiol.	Lisa Walters
7	GJ i sicrhau yr ymgynghorir â CGCC wrth barato'r cwestiwn nesaf am wirfoddoli ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol	Glyn Jones
8	FL i anfon adroddiad am wasanaethau gwirfoddoli at LW a gwahodd LW ac LP i gyfarfod Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru	Fiona Liddell
9	Y grŵp i anfon e-bost at GJ sy'n cynnwys unrhyw adborth am adroddiad Llesiant Cymru	Aelodau
10	SL/AN i ystyried yr adborth a roddwyd ynghylch cyfarfodydd yn y dyfodol, gan ymgysylltu ag aelodau'r panel cyn gosod yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf	Sue Leake / Anna Nichol
11	FL i ddsbarthu'r wybodaeth ynghylch rhaglen Gwirfoddoli Ystadegol	Fiona Liddell